

## PWYLLGOR ARDAL DWYFOR

17/6/19 (5.15PM – 7.50PM)

**Presennol:-** Y Cyngorydd Dewi Wyn Roberts (Cadeirydd)  
Y Cyngorydd Dylan Bullard (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Aled Evans, E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Nia Jeffreys, Aled Wyn Jones, Gareth Jones, Angela Ann Russell, Hefin Underwood, Eirwyn Williams, Gareth Williams a Gruffydd Williams.

**Swyddogion:-** Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Hefyd: Louise Davies, Rhona Jones, Christine Rudgley a Wyn Thomas (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) ar gyfer eitem 5 isod; Steffan Jones (Pennaeth Prifffyrdd a Bwrdeistrefol Dros Dro) ar gyfer eitem 6 isod; ynghyd â Dafydd Meurig (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Sian Griffiths (Rheolwr Prosiect - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorwyr Anwen Davies a John Brynmor Hughes.

<b>1</b>	<b>Ethol Cadeirydd</b>  Etholwyd y Cyngorydd Dewi Wyn Roberts yn Gadeirydd.	
<b>2</b>	<b>Ethol Is-Gadeirydd</b>  Etholwyd y Cyngorydd Dylan Bullard yn Is-Gadeirydd.	
<b>3</b>	<b>Croeso</b>  Croesawyd y Cyngorydd Gareth Jones i'w gyfarfod cyntaf.  Estynnwyd croeso i'r swyddogion a'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant i'r cyfarfod.	
<b>4</b>	<b>Datblygiadau yn Ysbyty Bryn Beryl</b>  Derbyniwyd cyflwyniad yn manylu ar y gwaith a gwblhawyd fel cam cyntaf o'r datblygiadau ynghyd â'r camau ailddatblygu yn y dyfodol.  Diolchwyd am y cyflwyniad a chroesawyd y datblygiadau a fyddai o fudd i'r gymuned gan nodi bod cyfle i gydweithio gyda'r Cyngor.	

	<p>Pwynt Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Anfon copi o'r cyflwyniad i'r aelodau.</li> </ul>	BA
--	---	----

<b>5</b>	<p><b>Eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf</b></p> <p>Cafwyd trafodaeth o ran eitemau posib ar gyfer y cyfarfod nesaf, nodwyd yr eitemau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Diweddariad ar Adolygiad Hafan a Harbwr Pwllheli</li> <li>➤ Newid Hinsawdd – Effaith ar Arfordir Gwynedd</li> <li>➤ Materion Plismona</li> </ul>	
----------	---	--

<b>6</b>	<p><b>Pont Bodfel</b></p> <p>Derbyniwyd cyflwyniad ar y gwaith a gwblhawyd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Nodwyd bod yr Adran mewn trafodaethau gyda CADW o ran lledu'r bont i gyfeiriad y gogledd a bwriadwyd rhoi diweddariad i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Diolchwyd am y cyflwyniad gan nodi gwerthfawrogiad o waith yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol a Ymgynghoriaeth Gwynedd o osod pont dros dro yn ddiymdroi yn dilyn difrod i'r bont.</p>	
----------	--	--

	<p>Pwynt Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoi diweddariad i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf.</li> </ul>	SJ
--	--	----

<b>7</b>	<p><b>Ail-Fodelu Gofal Cartref</b></p> <p>Derbyniwyd cyflwyniad ar y model Gofal Cartref newydd a oedd yn egluro'r rhesymau am y newid, yn manylu ar y model newydd a'i effaith a'r amserlen.</p> <p>Diolchwyd am y cyflwyniad.</p>	
----------	---	--

	<p>Pwynt Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Anfon copi o'r cyflwyniad i'r aelodau.</li> </ul>	BA
--	---	----

<p><b>Datgan Diddordeb</b></p> <p>Datganodd y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts ddiddordeb yn eitem 7 oherwydd bod ei wraig yn cael ei chyflogi fel Gofalwraig gan Gyngor Gwynedd.</p>		
--	--	--